Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Caerphilly County Borough Council

ARCHWILIAD CYFRIFON

Hysbysir drwy hyn, yn ôl Is-adrannau 29,30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliad 6 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018:-

1. O ddydd Llun 1 Gorffennaf 2019 i ddydd Gwener 26 Gorffennaf 2019, yn gynhwysol (ond yn eithrio bob dydd Sadwrn a dydd Sul) rhwng 9.00am a 4.30pm, gall unrhyw un sydd â diddordeb, trwy gais i'r Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Corfforaethol),Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7SF, archwilio a gwneud copïau o gyfrifon y Cyngor a enwir uchod ar gyfer y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2019, a phob llyfr, gweithred, cytundeb, bil, taleb a derbynneb sy'n berthnasol.

2. Ar neu ar ôl ddydd Llun 29 Gorffennaf 2019 am 11.00am, bydd Archwiliwr Allanol y Cyngor, ar gais etholwr llywodraeth leol i'r ardal y cyfeiria'r cyfrifon ati, yn rhoi cyfle i'r etholwr neu ei gynrychiolydd i'w gwestiynu ynglŷn â'r cyfrifon, a gall unrhyw etholwr neu eu cynrychiolydd fynychu cyn yr Archwiliwr yn Nhŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG a gwneud unrhyw wrthwynebiad i unrhyw un o'r cyfrifon.

3. Ni all unrhyw wrthwynebiad gael ei wneud dan baragraff 2 uchod heblaw bod hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig a'r seiliau dros wneud y gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn flaenorol gan yr Archwilydd Allanol yn 24 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ a chan y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.